Cofnodion Cyfarfod 8 Ionawr 2013 a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7:00 yh.

YN BRESENNOL

Ken Brown
George Smith
Lena Ashley
Nerys John
Louise Hughes
Pat Jones
Iestyn Harris
Sarah Riley
Hywel V Jones

Hefyd yn bresennol Wynne Barton
Swyddog Ariannol

1.0 SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD

1.1 Croesawyd yr aelodau i gyfarfod mis Ionawr y Cyngor gan ddymuno blwyddyn newydd dda iddynt y Cadeirydd, diolchodd iddynt am eu presenoldeb. Cydymdeimlwyd a'r Cynghorydd Hywel V Jones yn ei brofedigaeth. Cafwyd ennyd o ddistawrwydd coffadwriaeth.

Ymddiheuriadau Eluned Owen, Daniel Williams, Bethan Jones, Siân Gwenllïan.

2.0 DATGAN DIDDORDEB

2.1 Dim.

3.0 COFNODION

3.1 Cyflwynwyd Cofnodion 11 Rhagfyr 2012.

Cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir ac arwyddwyd y cofnodion.

4.0 MATERION YN CODI

4.1 **Materion Diogelwch Tân** - Nid oedd aelod o'r Pwyllgor Rheoli'r Neuadd Goffa yn bresennol i'r eitem hon.

4.2 **Gwefan y Felinheli** – tua 42 mil o hits wedi body n y mis blaenorol. Gwaith yn symud yn ei flaen i ddidoli lluniau newydd ar gyfer y wefan.

4.3 **Safle Bws Ger y Nant** – cyflwynwyd cynllun i'r aelodau yn dangos y safle bws arfaethedig ar leoliad ger y Wern a'r Stad Ger y Nant.

4.4 Dywedodd y Clerc bod Mr Gareth Roberts Cyngor Gwynedd am gynnal cyfarfod ar y safle ynghyd a staff Watkin Jones, Swyddogion Cyngor Gwynedd ac Aelodau'r Cyngor Cymuned. Yn anffodus nid yw Gareth Roberts yn ei waith ar hyn o bryd ond bydd yn trefnu cyfarfod yn fuan wedi iddo ddychwelyd. Bydd

yn trefnu dyddiad gyda'r Cadeirydd ac yna bydd yn hysbysu'r Cynghorwyr o'r manylion.

5.0 ADRODDIAD PWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD

5.1 Nid oedd neb yn bresennol i roi adroddiad.

6.0 CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL.

6.1 Cadarnhawyd gwariant Mis Rhagfyr a derbyniwyd yr adroddiad ariannol.

6.2 Dywedodd y Swyddog Ariannol ei fod wedi derbyn Drafft Cytundeb oddi wrth Cadeirydd Pwyllgor Rheoli'r Neuadd ynglŷn â'r benthyciad oddi wrth y Cyngor Cymuned i sicrhau bod costau datblygu'r neuadd wedi ei dalu'n gyflawn i'r adeiladwr. Darllenwyd y cytundeb i'r aelodau.

Penderfynwyd Bod Cadeirydd Pwyllgor Rheoli'r Neuadd yn symud ymlaen i lunio'r Gytundeb ar gyfer ei harwyddo.

6.3 Cyflwynodd y Swyddog Ariannol Adroddiad Drafft am y Gyllid ar gyfer 2013-2014 – gweler atodiad 1.

6.4 Eglurodd sefyllfa ynglŷn â'r precept a'r grant £3000 oddi wrth y Cyngor Sir awgrymodd i'r precept aros ar £27,000. Awgrymodd hefyd bod y £1000 oedd wedi ei glustnodi ar gyfer maes chware amlbwrpas yn cael ei dynnu'n ôl oherwydd bod y prosiect hwn wedi ei fabwysiadau gan bwyllgor arall. Byddai ystyriaeth yn cael ei roi os bydd cais am gymorth ariannol yn cael ei dderbyn.

Dangosodd yr aelodau eu penderfyniad i dderbyn awgrymiadau'r Swyddog Ariannol ynglŷn â'r precept a'r £1000 oedd wedi ei glustnodi.

6.5 Dywedodd y Swyddog Ariannol ei fod wedi derbyn 3 cais am gymorth ariannol.

Bydd y ceisiadau yn cael eu hystyried yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

7.0 GOHEBIAETH

7.1 Newidiadau i wasanaeth GIG 2012 – Gwybodaeth yn unig

7.2 Ymgynghoriad ar y Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) - Dim sylwadau i'w hanfon.

7.3 Tyrbeini Gwynt – Dim sylwadau i'w hanfon.

8.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR COFEB Y CLOC

8.1 Dim i'w adrodd.

9.0 CEISIADAU CYNLLUNIO

9.1 Dim

10.0 NEUADD YR EGLWYS

10.1 Dim gwybodaeth i'w adrodd.

11.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y FYNWENT

11.1 Bydd Hysbyseb ynglŷn Tendrau torri gwair y fynwent yn ymddangos yn y papur lleol y mis hwn.

Bydd Y tendrau yn cael eu hystyried yng nghyfarfod misol nesaf y Cyngor.

12.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH

12.1 Dim gwybodaeth i'w adrodd.

13.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR LLWYBRAU, CYSGODFANNAU A MEINCIAU

13.1 Mae rhai llwybrau yn parhau ar gau oherwydd difrod wedi'r llifogydd.

14.0 CYNGHORYDD SIR

14.1 Nid oedd y Cynghorydd Sir yn bresennol ond cyflwynwyd yr adroddiad ysgrifenedig gweler atodiad 2.

14.2

15.0 UNRHYW FATER ARALL

Dim

Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 8:30 yn yr hwyr.

Llofnod: ..... Dyddiad:.....